Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

**CYNLLUN DATBLYGU LLEOL 2**

# Anheddau Newydd yn Lle Rhai Presennol yng Nghefn Gwlad

Canllawiau Cynllunio Atodol

Ymgynghoriad: 10 Hydref i 5 Rhagfyr 2025
Mabwysiadu: 11 Chwefror 2026

Mae'r eitem hon ar gael yn Saesneg hefyd/ This item is also available in English

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park

# Cynnwys


Cyflwyniad ........ 3
Y Cyd-destun Polisi ........ 4
Statws Canllawiau Cynllunio Atodol ........ 5
Adran A: Cwestiynau Allweddol ........ 7
Adran B: Ystyriaethau cyffredinol ........ 18
Dyluniad ........ 18
Cwrtil ........ 18
Goleuo ........ 19
Atal hawliau datblygu a ganiateir ........ 20
Adran C Gwybodaeth bellach a chysylltiadau ........ 21

# Cyflwyniad

1. Ym mis Medi 2020 cafodd Cynllun Datblygu Lleol 2 Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (dyddiad dod i ben 2031) ei fabwysiadu gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Fel y mae cyfraith cynllunio wedi sefydlu, rhaid i bob penderfyniad gael ei wneud yn unol â'r cynllun datblygu, oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn awgrymu fel arall.

2. Caiff Canllawiau Cynllunio Atodol eu hystyried yn ystyriaeth gynllunio berthnasol cyn belled â'u bod yn deillio o'r Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig ac yn gyson ag ef.

3. Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol hyn ar Anheddau Newydd yn Lle Rhai Presennol yng Nghefn Gwlad wedi'u gosod yn bennaf fel cyfres o gwestiynau hierarchaidd ac mae'n disgrifio sut y caiff polisïau perthnasol y Cynllun Datblygu eu cymhwyso ar gyfer cynigion am anheddau newydd yn lle rhai presennol. Drwy dynnu sylw at feysydd lle gall fod gwrthdaro â pholisi a'r holl ganllawiau a fabwysiadwyd, bydd y canllawiau hyn yn galluogi ymgeiswyr i baratoi cynllun ar gyfer annedd newydd sy'n fwy tebygol o gael ei gefnogi. Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol hyn ar Anheddau Newydd yn Lle Rhai Presennol yn cydblethu â Chanllawiau Cynllunio Atodol Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar Ddylunio a Datblygu Cynaliadwy, Cymeriad Tirwedd a Morwedd, a Bioamrywiaeth.[1]

4. Mae anheddau newydd tebyg yn lle tebyg yng nghefn gwlad wedi'u derbyn mewn egwyddor fel eithriad i bolisïau cyffredinol sy'n rheoli datblygiadau preswyl newydd yng nghefn gwlad yn llym ar yr amod y caiff profion polisi allweddol eu diwallu. Mae hynny'n golygu bod cynllun sydd wedi'i arwain gan y cyd-destun ar gyfer annedd newydd yn lle un presennol sy'n gwella cymeriad y dirwedd yn gallu galluogi adnewyddu'r stoc tai presennol heb gynyddu cyfanswm nifer yr anheddau yng nghefn gwlad.

5. Rhoddir anogaeth gref i ymgeiswyr ymgysylltu drwy drafodaethau cyn-ymgeisio gydag Awdurdod y Parc Cenedlaethol o gam cynnar. Mae hynny'n rhoi cyfle i ganfod cyfleoedd, ystyried cyfyngiadau posib yn gynnar ac ymchwilio i ddatrysiadau dan arweiniad dylunio mewn modd cydweithredol. Mae ymgysylltu cynnar drwy gyngor cyn-ymgeisio yn gallu helpu i symleiddio'r broses ymgeisio, lleihau ansicrwydd a gwella'r cyfleoedd o gael canlyniad llwyddiannus. Yn ogystal â gwasanaeth cyn-ymgeisio safonol yr Awdurdod, mae gwasanaeth anstatudol hefyd ar gael, gyda strwythur codi tâl wedi'i deilwra. Bwriad y gwasanaeth hwn ydy darparu cyngor mwy penodol a chynhwysfawr, gan helpu i ychwanegu gwerth at gynigion datblygu.

6. Mae'r Awdurdod yn derbyn nifer o geisiadau am anheddau newydd yn lle rhai presennol yng nghefn gwlad. Lle bydd cynigion yn canolbwyntio'n unig ar gael

[1] https://www.arfordirpenfro.cymru/cynllunio/polisiau-cynllunio/cynllun-datblygu-lleol-2/canllawiau-cynllunio-atodol-cdl2/

yr ôl-troed mwyaf i adeiladau, egwyddor craidd sy’n parhau ydy y caiff datblygu sy’n cael effaith niweidiol ar y dirwedd ei reoli’n llym. Anogir ymgeiswyr i geisio dyluniadau cymesur o ansawdd uchel sydd yn parchu cymeriad adeiladau a thirweddau, gan sicrhau bod datblygiadau newydd yn ddichonadwy yn y farchnad bresennol ac yn gydnaws â’u hamgylchedd.

## Y Cyd-destun Polisi

### Cymru’r Dyfodol 2040 a Chynllun Datblygu Lleol 2

7. Dan ddeddfwriaeth gynllunio, caiff y polisïau cynllunio ar gyfer pob ardal eu cynnwys yn y 'cynllun datblygu’. Mae Cymru’r Dyfodol 2040 yn gosod strategaeth ofodol *sy’n datgan ‘drwy ganolbwyntio twf ar raddfa fawr ar yr ardaloedd trefol gellir sianelu pwysau datblygu i ffwrdd oddi wrth gefn gwlad.’*[2] Cafodd Cynllun Datblygu Lleol 2 Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ei fabwysiadu ym mis Medi 2020. Mae strategaeth ofodol Cynllun Datblygu Lleol 2 hefyd yn sianelu datblygiadau tuag at drefi a phentrefi.

8. **Polisi 1 (Dibenion a Dyletswydd y Parc Cenedlaethol)** y Cynllun Datblygu Lleol ydy’r polisi trosfwaol yn y Cynllun sy’n ymgorffori dibenion a dyletswydd yr Awdurdod yng nghyd-destun cymunedau’r Parc Cenedlaethol. Mae’n egluro bod rhaid i ddatblygiadau o fewn y Parc Cenedlaethol fod yn gydnaws â

   a) diogelu a gwella prydferthwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc, a
   b) dealltwriaeth a mwynhad y cyhoedd o’r rhinweddau arbennig

   Os ceir gwrthdaro rhwng y dibenion nad oes modd ei ddatrys, mae’r diben cyntaf sy’n ymwneud â chadwraeth a gwella yn dwyn mwy o bwysau. Gelwir hynny yn ‘egwyddor Sandford’.

9. Mae **Polisi 7 (Cefn Gwlad)** Cynllun Datblygu Lleol 2 yn rheoli datblygu yng nghefn gwlad yn llym.

10. Nid yw Cynllun Datblygu Lleol 2 yn cynnwys polisi wedi’i deilwra ar gyfer cynigion am anheddau newydd yn lle rhai presennol. Serch hynny, mae’n amlinellu egwyddorion strategol sydd yn ystyriaethau ym mhob penderfyniad ar reoli datblygu. Mae hynny’n cynnwys Polisi 8 (Nodweddion Arbennig), Polisi 14 (Gwarchod a Gwella Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro), Polisi 29 (Dylunio Cynaliadwy) a Pholisi 31 (Lleihau Gwastraff).

11. Mae’r Awdurdod wedi cyhoeddi’r Canllawiau Cynllunio Atodol canlynol a allai

[2] Tudalen 64, ail baragraff. Cymru’r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040
https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/cymrur-dyfodol-y-cynllun-cenedlaethol-2040.pdf

gynorthwyo ymgeiswyr i ddeall yr arferion gorau ar gyfer sicrhau dyluniad o ansawdd uchel sydd yn ymateb yn gadarnhaol i gymeriad tirwedd a threftadaeth ddiwylliannol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, ac yn eu gwella.

- Dylunio a Datblygu Cynaliadwy
- Cymeriad Tirwedd
- Cymeriad Morwedd
- Canllawiau Arferion Da:Cynllunio ar gyfer Cadwraeth a Gwella Awyr Dywyll yng Nghymru

Drwy ymgorffori polisïau a chanllawiau mewn dyluniad o ansawdd uchel, mae annedd newydd yn lle un presennol yn gallu:

- Ailddefnyddio deunyddiau adeiladu presennol a rhai lleol er mwyn bodloni Polisi 29 (Dylunio Cynaliadwy) a Pholisi 31 (Lleihau Gwastraff) sydd yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau gael eu cynllunio'n dda o ran eu defnydd o ddeunyddiau ac adnoddau.
- Gwneud cyfraniad cadarnhaol a gwella cymeriad y dirwedd er mwyn bodloni Polisi 29 (Dylunio Cynaliadwy) sydd yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiad gael ei ddylunio'n dda o ran lle a hynodrwydd lleol a Pholisi 14 (Gwarchod a gwella Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro) sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiad beidio â chael effaith niweidiol annerbyniol ar nodweddion hynod lleol drwy golli neu beidio ag ymgorffori nodweddion traddodiadol pwysig.
- Helpu i gynnal cymysgedd briodol a fforddiadwyedd tai mewn ardal drwy annog anheddau newydd yn lle rhai presennol i ystyried graddfa'r annedd presennol a'i chyd-destun (Polisi 52 Cymysgedd Tai)

12. Rôl y canllawiau hyn ydy sicrhau bod cynigion o'r fath yn destun ystyriaeth ofalus er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â pholisïau Cynllun Datblygu Lleol 2.

## Statws Canllawiau Cynllunio Atodol

13. Mae Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) yn ystyriaeth gynllunio berthnasol yn ystod y broses o asesu a phenderfynu ar geisiadau cynllunio. Bydd Llywodraeth Cymru a Phenderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PCAC) yn gosod pwysau ar ganllawiau cynllunio atodol sydd yn deillio o gynllun datblygu ac yn gyson ag ef. Golyga hyn nad yw Canllawiau Cynllunio Atodol yn cyflwyno unrhyw bolisïau cynllunio newydd.

14. Yn unol â chyngor Llywodraeth Cymru, bydd y drafft CCA hyn yn destun ymgynghoriad cyhoeddus a phenderfyniad i'w mabwysiadu gan Awdurdod y

Parc Cenedlaethol.

15. Mae’r canllawiau canlynol wedi’u rhannu yn dair is-adran. Mae'r is-adrannau yn ymwneud â’r testunau canlynol:

**Adran A: Cwestiynau Allweddol**
**Adran B: Materion Cyffredinol**
**Adran C: Gwybodaeth bellach a chysylltiadau**

16. Bydd y Canllawiau Cynllunio Atodol hyn yn darparu canllawiau pellach ynglŷn â’r ystyriaethau cynllunio sydd yn berthnasol ar gyfer anheddau newydd yn lle rhai presennol yng nghefn gwlad. Y diffiniad o ‘gefn gwlad’ yn y cyd-destun hwn ydy safleoedd y tu allan i’r Canolfannau, fel y’u diffinnir yng Nghynllun Datblygu Lleol 2.

## Adran A: Cwestiynau Allweddol

A.1 Mae’r adran hon yn rhestru pum cwestiwn allweddol y dylid eu hystyried wrth gychwyn ar unrhyw gynnig ar gyfer annedd newydd yn lle un presennol. Mae sail pob cwestiwn yn gysylltiedig â pholisi cenedlaethol a lleol sy’n gyfeirnodau ar gyfer gwybodaeth a chanllawiau pellach.

A.2 Mae’r cwestiynau yn ffurfio cyfres hierarchaidd a dylid eu hystyried yn eu trefn. Bydd hynny’n amlygu sut y gallai cynnig ar gyfer annedd newydd yn lle un presennol gydymffurfio neu beidio â pholisi a sut y gellid mynd i’r afael â hynny.

## C1. A oes gan yr annedd presennol ddefnydd preswyl cyfreithlon?

| Pam mae'r awdurdod cynllunio yn gofyn y cwestiwn hwn? | Cyfeirnod Polisi Cenedlaethol | Cyfeirnod Polisi Cynllunio Lleol |
|---|---|---|
| **Mewn lleoliadau cefn gwlad, rhaid bod gan yr annedd presennol ddefnydd sydd wedi'i sefydlu fel uned breswyl neu fel arall, byddai'r cynllun yn cael ei ystyried yn un i greu annedd newydd, sydd yn groes i bolisi cynllunio Cenedlaethol.**<br><br>**Rhaid bod gan yr annedd gwreiddiol ddefnydd preswyl parhaol cyfreithlon a rhaid bod modd iddo gael ei feddiannu at ddibenion preswyl yn ei gyflwr a'i ffurf presennol cyn unrhyw newid derbyniol a gymeradwyir.** | **Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 12 Chwefror 2024) Datblygu yng Nghefn Gwlad 3.60** ***'Dylid lleoli datblygiadau yng nghefn gwlad o fewn a gerllaw'r aneddiadau lle gellir eu lleoli orau o ran seilwaith, mynediad a gwarchod cynefinoedd a gwarchod y dirwedd. …. Fodd bynnag, mae'n rhaid parhau i reoli gwaith adeiladu newydd yn gaeth mewn cefn gwlad agored nad yw ger aneddiadau cyfredol neu ardaloedd a ddyrannwyd ar gyfer datblygu mewn cynlluniau datblygu.'[3]*** | **Polisi 7 (Cefn Gwlad)** ***Tu allan i'r Canolfannau a nodwyd mae cefn gwlad lle mae'n rhaid rheoli datblygiad yn llym…*** |

### *Canllawiau Ymarferol: Defnydd Cyfreithlon*

Wrth ystyried unedau preswyl sydd yn destun cais i gael eu dymchwel a chael rhai newydd yn eu lle, bydd rhaid i'r Awdurdod, yn y man cyntaf, sicrhau bod gan yr uned y cynigir ei dymchwel ddefnydd cyfreithlon fel uned breswyl, h.y. bydd angen sicrhau nad yw'r uned yn un adawedig. Ystyr 'gadawedig' ydy pan fydd y defnydd gwreiddiol a ganiatawyd wedi'i golli. Er mwyn pennu a yw uned yn adawedig o ran ei defnydd yna bydd rhaid ystyried y cynnig yn ôl y meini prawf canlynol[4]:-

**a)** Cyflwr ffisegol yr adeilad;
**b)** Y cyfnod sydd wedi mynd heibio ers i'r adeilad gael ei ddefnyddio ddiwethaf;
**c)** A yw'r adeilad wedi cael ei ddefnyddio at ddefnydd gwahanol;
**d)** Bwriad y perchennog;

Gallai adeiladau sydd heb ddefnydd preswyl cyfreithlon fod yn addas ar gyfer eu haddasu – gweler Polisi 7c) (Cefn Gwlad) sy'n ymdrin ag addasu adeiladau yng nghefn gwlad a'r canllawiau cynllunio atodol sy'n ategu'r polisi hwnnw.

---

[3] Mae Cymru'r Dyfodol 2040 yn gosod strategaeth ofodol sy'n datgan 'drwy ganolbwyntio twf ar raddfa fawr ar yr ardaloedd trefol gellir sianelu pwysau datblygu i ffwrdd oddi wrth gefn gwlad.'
[4] Ymddiriedolwyr Ystâd Castell-y-Mynach v Cyngor Dosbarth Taf-Elai [1985] JPL 40

Mewn achosion lle nad yw'n eglur a yw'r uned yn adawedig, awgryma'r awdurdod cynllunio y dylid cyflwyno cais Tystysgrif Cyfreithlondeb er mwyn asesu a yw'r defnydd preswyl wedi'i gadw. Bydd angen gwybodaeth ategol a thystiolaeth gynhwysfawr ar gyfer hyn, a byddant yn cael eu mesur yn unol â'r meini prawf uchod. Bydd canlyniad cais am dystysgrif cyfreithlondeb yn pennu a oes modd cyfiawnhau annedd newydd yn lle un presennol yng nghefn gwlad o safbwynt cynllunio.

**Ateb i C1 yw 'oes'**
**– ewch i'r cwestiwn nesaf**

**Ateb i C1 yw 'nac oes' - mae'n annhebygol y rhoddir caniatâd cynllunio**

## C2. A yw'r adeilad presennol yn cael ei ystyried yn un sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad yr ardal drwy ei rinweddau pensaernïol cynhenid neu ei leoliad yn y dirwedd?

| Pam mae'r awdurdod cynllunio yn gofyn y cwestiwn hwn? | Cyfeirnod Polisi Cenedlaethol | Cyfeirnod Polisi Cynllunio Lleol |
|---|---|---|
| **Ni ddylai'r cynnig arwain at golli adeilad sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad yr ardal leol.**<br><br>**Os mai bwriad y cais yw dymchwel adeilad sydd â chymaint o bwysigrwydd pensaernïol, hanesyddol neu dirweddol neu y byddai ei golli yn arwain at niwed i gymeriad yr ardal a chodi un arall yn ei le, yna mae'n annhebygol y rhoddir caniatâd cynllunio yn unol â Pholisi 14.** | **Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 12 Chwefror 2024) Paragraff 6.0.2**<br>***"Mae'n rhaid diogelu nodweddion arbennig ac unigryw a phriodoleddau cynhenid yr amgylchedd naturiol ac adeiledig am yr hyn ydynt, am resymau hanesyddol, golygfaol, esthetig a chadwraeth natur. Maent yn rhoi hunaniaeth a chymeriad unigryw i leoedd ac yn darparu profiadau diwylliannol a ffyrdd iach o fyw."***<br><br>**TAN 12 Dylunio 5.8.1**<br>***"Dylid cydnabod rhinweddau arbennig tirwedd ac arfordir Cymru. Dylid cyfoethogi'r rhinweddau trwy warchod cymeriad cefn gwlad a sicrhau bod datblygiadau newydd o ansawdd uchel."*** | **Mae Polisi 1 (Dibenion a Dyletswydd y Parc Cenedlaethol)** ***yn amlinellu dyletswydd y Parc Cenedlaethol, gan sicrhau bod datblygiadau yn diogelu a gwella prydferthwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc.***<br><br>**Mae Polisi 8 (Nodweddion Arbennig)** ***yn rhestru'r blaenoriaethau er mwyn sicrhau y caiff rhinweddau arbennig y Parc eu gwarchod a'u gwella. Y rhinweddau hynny ydy nodweddion ac elfennau'r Parc Cenedlaethol sydd naill ai'n unigol neu mewn cyfuniad yn cyfrannu at wneud y Parc Cenedlaethol yn unigryw.***<br><br>**Nid yw Polisi 14 (Gwarchod a gwella Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro)** ***yn caniatáu datblygiad lle byddai hyn yn cael effaith andwyol annerbyniol ar nodweddion a chymeriad tirwedd a morwedd arbennig y Parc Cenedlaethol gan gynnwys nodweddion unigryw lleol drwy... d) colli neu fethu â chynnwys nodweddion traddodiadol pwysig.*** |

### *Canllawiau Ymarferol: Cymeriad*

Mae cymeriad hanesyddol a/neu esthetig llawer o adeiladau ar draws y Parc Cenedlaethol yn dibynnu ar lunwedd syml a chadarn, gyda deunyddiau adeiladu oedd ar gael yn lleol yn un o nodweddion adeiladau gwledig. Daeth newid tua diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg pan wnaed defnydd cynyddol o lechi o Ogledd Cymru ac yn gynnar yn yr ugeinfed ganrif pan gafodd dur rhychiog a rhywfaint o frics eu defnyddio.

Ar gyfer Adeiladau Rhestredig, dylai fod rhagdybiaeth gyffredinol o blaid eu diogelu neu wella, a'u lleoliad, a allai ymestyn y tu hwnt i'w cwrtil. [5] Nid yw'r mwyafrif llethol o adeiladau gwledig yn rhestredig ac er gwaethaf colli rhywfaint o fanylion, mae'r rhan fwyaf yn cadw eu ffurf yn dda. Yr adeiladau hyn sydd fel petaent yn 'gyffredin' sydd yn rhoi ei gymeriad arbennig i'r Parc Cenedlaethol o safbwynt ffurf adeiledig.

Lle mae'r annedd yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad lleol yr ardal a bod y perchennog yn dymuno gwella neu gynyddu'r llety preswyl sydd ar gael, yna mae'n bosib mai estyniad fyddai'r modd mwyaf priodol i wella'r llety, er y bydd pob achos yn cael ei asesu yn ôl ei rinweddau ei hun.

Mae'r Awdurdod wedi cyhoeddi'r Canllawiau Cynllunio Atodol canlynol, a allai gynorthwyo ymgeiswyr ymhellach i ddeall yr arferion gorau ar gyfer sicrhau dyluniad o ansawdd uchel sydd yn ymateb yn gadarnhaol i gymeriad tirwedd a threftadaeth ddiwylliannol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, ac yn eu gwella. Yn benodol, mae'r Canllawiau ar Gymeriad Tirwedd a Morwedd yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol ynglŷn â derbynyddion tirwedd, sy'n gallu helpu i lywio gwaith lleoli a dylunio anheddau newydd yn lle rhai presennol.

- Dylunio a Datblygu Cynaliadwy
- Cymeriad Tirwedd
- Cymeriad Morwedd

**Ateb i C2 yw 'nac ydy'**
**– ewch i'r cwestiwn nesaf**

**Ateb i C2 yw 'ydy'**
**– mae'n annhebygol y rhoddir caniatâd cynllunio**

[5] Paragraff 6.1.10 Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 12 | Chwefror 2024


## C3. A oes modd cyfiawnhau dymchwel yr annedd presennol?

| Pam mae'r awdurdod cynllunio yn gofyn y cwestiwn hwn? | Cyfeirnod Polisi Cenedlaethol | Cyfeirnod Polisi Cynllunio Lleol |
|---|---|---|
| **Mae goblygiadau ynghlwm â dymchwel adeiladau a chodi rhai newydd yn eu lle o safbwynt defnyddio adnoddau a charbon a ymgorfforwyd, gan fod deunyddiau ac ynni a fuddsoddwyd mewn adeileddau sy'n bodoli yn cael eu colli ac allyriadau newydd yn deillio o'r prosesau adeiladu. Mae polisi cenedlaethol yn annog ystyried yn ofalus a fyddai ailddefnyddio neu adnewyddu yn ddewis arall dichonadwy a phriodol. Er y gall anheddau newydd a godir yn lle rhai presennol sicrhau gwell perfformiad gweithredol o ran ynni, efallai na cheir budd net am gyfnod sylweddol o ganlyniad i'r allyriadau sy'n gysylltiedig â dymchwel ac adeiladu.** | **Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 12 Chwefror 2024) 5.13.5** ***'Dylid ystyried atal gwastraff a dulliau o annog ailddefnyddio ac ailgylchu yn fuan yn y broses, wrth ddewis deunydd a dylunio.'*** <br><br> **TAN 12 Dylunio Tudalen 22 Ymateb '*dylid ymgorfforri datblygu addasadwy a hyblyg a all ymateb…….i leihau'r angen i ddymchwel ac ailadeiladu.'*** | **Polisi 29 (Dylunio Cynaliadwy) *Disgwylir i bob cynnig ar gyfer datblygu ddangos dull integredig o ddylunio ac adeiladu, a bydd gofyn iddynt gael eu cynllunio'n dda o ran: e) defnydd effeithlon o ynni; f) cynhyrchu ynni; g) deunyddiau ac adnoddau; ac i) gwastraff*** <br><br> **Polisi 31 (Lleihau Gwastraff) *Rhaid i ddatblygiad leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff a gynhyrchir yn ystod dymchwel ac adeiladu …'*** |

### *Canllawiau Ymarferol: Ailddefnyddio ynteu Ddymchwel*

O safbwynt cynaliadwyedd, ailddefnyddio, adnewyddu, neu addasu annedd presennol fydd yr opsiwn mwyaf effeithlon o ran carbon fel arfer. Mae TAN 12 (Dylunio) yn cydnabod bod angen datrysiad dylunio ar gyfer cynaliadwyedd amgylcheddol sy'n integreiddio lleihau carbon drwy sicrhau cyn lleied â phosib o'r allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â datblygu drwy roi'r hierarchaeth ynni ar waith, neu gyflawni safonau di-garbon.
Yn unol â Pholisi 31 (Lleihau Gwastraff), os cynigir adeilad newydd yn lle un presennol, rhaid dangos hefyd nad oes modd cadw'r adeilad presennol drwy ei adnewyddu. Mae Polisi Cynllunio Cymru a TAN 12 yn amlinellu'r hierarchaeth ynni a'r prif nod o leihau'r galw am ynni (gweler y ffigur isod): [6]

[6] Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 12 5.8.1 Dylai'r system gynllunio gefnogi datblygiad newydd sy'n defnyddio ynni'n effeithiol iawn, yn cefnogi datgarboneiddio, yn mynd i'r afael ag achosion newid yn yr hinsawdd ac yn addasu i effeithiau yr argyfwng hinsawdd nawr ac i'r dyfodol trwy ymgorffori mesurau lliniaru ac addasu effeithiol.




Er mwyn dangos nad yw adnewyddu yn ddichonadwy, dylid cyflwyno Adroddiad Adeiledd, wedi'i baratoi gan unigolyn â chymwysterau priodol, megis Peiriannydd Adeiladu, gyda'r cais, a hwnnw'n amlinellu'r dystiolaeth sy'n dangos sut mae dymchwel ac ailadeiladu yn gorbwyso manteision ailddefnyddio drwy adnewyddu.

Dylai unrhyw gais am annedd newydd yn lle un presennol ddangos sut y cafodd y dull hierarchaidd ei ddiwallu drwy ddatrysiadau dylunio sy'n lleihau carbon.

Lle nad ystyrir bod yr annedd presennol yn agos at ddiwedd ei oes, dylid cyfiawnhau adeiladu annedd newydd yn ei le yn hytrach nag adfer ac adnewyddu. Yn yr amgylchiadau hyn, gellir gofyn i ymgeiswyr gyflwyno gwybodaeth ategol ychwanegol, a allai gynnwys: asesiad carbon sy'n rhoi cyfrif am ynni ymgorfforedig yr adeilad presennol, cyfrifiadau carbon yn dangos sut y bydd lliniaru neu wrthbwyso allyriadau sy'n deillio o ddymchwel, neu restr fanwl o ddeunyddiau gydag amlinelliad o sut bydd yr adeiladu yn mabwysiadu egwyddorion economi gylchol. Yn yr achosion hyn, gall cynnwys gweithiwr proffesiynol â chymwysterau addas, megis Asesydd BREEAM, sicrhau cyngor technegol ynglŷn â sut i sicrhau effeithlonrwydd o ran carbon ar gyfer adeilad presennol neu gynnig am annedd newydd yn lle un presennol.

Dylai ymgeiswyr nodi nad yw'r costau ariannol sydd ynghlwm ag unrhyw fath o ddatblygiad yn ystyriaeth gynllunio berthnasol.

**Ateb i C3 yw 'oes' – ewch i'r cwestiwn nesaf.**

**Ateb i C3 yw 'nac oes' – mae'n annhebygol y rhoddir caniatâd cynllunio oni bai bod tystiolaeth yn cadarnhau manteision**

## C4. A yw'r annedd newydd o fewn yr un ôl troed â'r un y mae'n cymryd ei le?

| Pam mae'r awdurdod cynllunio yn gofyn y cwestiwn hwn? | Cyfeirnod Polisi Cenedlaethol | Cyfeirnod Polisi Cynllunio Lleol |
|---|---|---|
| **Y nod ydy sicrhau bod y cynnig yn parchu polisi cenedlaethol i reoli datblygu yng nghefn gwlad yn llym a hefyd na ddylai greu amhariad gweledol annerbyniol.**<br><br>**Yn hyn o beth, byddai'r Awdurdod yn disgwyl y dylai'r datblygiad newydd adlewyrchu'r un faint o ddatblygiad ag y mae'n cymryd ei le.**<br><br>**Fan leiaf, ni ddylai cynigion greu mwy o amhariad gweledol niweidiol na'r annedd sy'n bodoli. Byddai annedd wedi'i leoli ar yr un ôl-troed â'r annedd gwreiddiol yn fwy tebygol ar y cyfan o gyflawni'r amcan honno.**<br><br>**Byddai angen i adleoli o fewn cwrtil yr annedd presennol ddangos manteision amlwg er mwyn cael cefnogaeth. Nid yw hyn yn golygu, fodd bynnag, y gellir datblygu'r cwrtil cyfan.** | **Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 12 Chwefror 2024) Datblygu yng Nghefn Gwlad 3.60**<br>***'…. maen rhaid parhau i reoli gwaith adeiladu newydd yn gaeth mewn cefn gwlad agored nad yw ger aneddiadau cyfredol neu ardaloedd a ddyrannwyd ar gyfer datblygu mewn cynlluniau datblygu.'*** [7]<br><br>**Mae TAN 12 Dylunio Tudalen 19 yn nodi y dylai Ymateb Dylunio ar ôl arfarnu'r cyd-destun ymateb i:**<br>• ***Dirweddau a threfweddau, diwylliant a bioamrywiaeth***<br>• ***Patrymau a ffurfiau datblygu sy'n arbennig i'r ardal leol***<br>• ***Adeiladau presennol, seilwaith, tirwedd drefol/wledig a chelfyddyd gyhoeddus***<br>• ***Ffiniau clir a llinellau adeiladu sefydledig***<br>• ***Priodoldeb y defnyddiau a'r cymysgedd defnyddiau a dwyseddau***<br>• ***Nodweddion a thirnodau sy'n hawdd eu hadnabod a'u deall*** | **Polisi 7 (Cefn Gwlad)** ***Tu allan i'r Canolfannau a nodwyd mae cefn gwlad lle mae'n rhaid rheoli datblygiad yn llym…***<br><br>**Polisi 14 (Gwarchod a gwella Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro)** ***Ni chaniateir datblygiad lle byddai hyn yn cael effaith andwyol annerbyniol ar nodweddion a chymeriad tirwedd a morwedd arbennig Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro gan gynnwys nodweddion unigryw lleol drwy...a) achosi ymyrraeth weledol... c) beidio â gweddu â neu wella cymeriad tirffurf, tirwedd a morwedd y Parc Cenedlaethol...'***<br><br>***Mae Canllawiau Cynllunio Atodol Dylunio a Datblygu Cynaliadwy yn cynghori y dylai datblygiad ymateb i nodweddion ffisegol safle, gan barchu uchder, llinellau golwg, llinellau adeiladau, patrymau datblygu hanesyddol a chyfeiriadedd datblygiadau yn y cyffiniau.*** |

### *Canllawiau Ymarferol: Lleoli*

Wrth leoli annedd newydd sy'n cymryd lle un presennol, dylid ceisio sefydlu perthynas

[7] Mae Cymru'r Dyfodol 2040 yn gosod strategaeth ofodol sy'n datgan 'drwy ganolbwyntio twf ar raddfa fawr ar yr ardaloedd trefol gellir sianelu pwysau datblygu i ffwrdd oddi wrth gefn gwlad.'

gadarnhaol â datblygiadau cyfagos a'r dirwedd yn ehangach, a chyfrannu at y cymeriad lleol a'r ymdeimlad o le, gan osgoi niwed annerbyniol. Y ffordd orau o gyflawni hynny fel arfer ydy i'r annedd gael ei leoli ar yr un ôl-troed â'r annedd gwreiddiol.

Yn ddelfrydol, dylid lleoli'r uned newydd ar ôl troed yr adeilad presennol. Fodd bynnag, gellid ystyried lleoliadau gwahanol o fewn y cwrtil lle maent yn cynnig manteision amlwg megis gwella'r berthynas weledol â'r dirwedd o'i amgylch, gwella amwynder i drigolion lleol, neu leihau risgiau llifogydd.[8]

Os oes modd profi y ceir manteision drwy leoli'r annedd mewn lleoliad gwahanol o fewn cwrtil y safle, yna byddai hynny'n dderbyniol lle nad oes unrhyw gynnydd yn effaith weledol yr annedd yn y dirwedd. Dylai'r asesiad o effeithiau gynnwys golygfeydd o bellter yn ogystal ag o'r gymdogaeth yn union o'i gwmpas.

**Ateb i C4 yw 'ydy' – ewch i'r cwestiwn nesaf.**

**Ateb i C4 yw 'nac ydy' – mae'n annhebygol y rhoddir caniatâd cynllunio oni bai bod tystiolaeth gadarn yn awgrymu enillion**

[8] *Polisi 36 Adleoli anheddau parhaol presennol yr effeithir arnynt gan newid arfordirol*

## C5. A yw'r annedd arfaethedig o raddfa a maint tebyg i'r annedd gwreiddiol?

| Pam mae'r awdurdod cynllunio yn gofyn y cwestiwn hwn? | Cyfeirnod Polisi Cenedlaethol | Cyfeirnod Polisi Cynllunio Lleol |
|---|---|---|
| **Ni ddylai'r cynnig greu amhariad gweledol annerbyniol ac ni ddylai hynny, fan leiaf, fod ddim mwy o ran graddfa a maint na'r annedd presennol y bydd yn cymryd ei le.**<br><br>**Byddai annedd sydd o raddfa a maint tebyg i'r annedd gwreiddiol yn fwy tebygol ar y cyfan o gyflawni'r amcan honno.** | **TAN 12 Dylunio 5.8.3**<br>***"Gan fod llawer o'r adeiladau yng nghefn gwlad Cymru wedi eu codi ar safleoedd gweledol amlwg, mae'r perygl o ddifrodi'r arbenigrwydd lleol trwy eu datblygu mewn ffordd anaddas yn fwy hyd yn oed nag ydyw mewn ardaloedd dwys eu datblygiad."***<br><br>**Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 12 Chwefror 2024) Cyflenwi Tai 4.2.25**<br>***Yn y cefn gwlad agored, yn bell o aneddiadau sefydledig a nodir mewn cynlluniau datblygu, neu'n bell o ardaloedd eraill sydd wedi'u neilltuo ar gyfer datblygiad, nid yw'r ffaith y gallai tŷ ar safle penodol fod yng nghudd yn ddadl dda ynddi'i hun dros roi caniatâd; gellid ailadrodd hynny'n rhy aml, er niwed cyffredinol i gymeriad ardal.*** | **Nid yw Polisi 14 (Gwarchod a gwella Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro)** ***yn caniatáu datblygiad lle byddai hyn yn cael effaith andwyol annerbyniol ar nodweddion a chymeriad tirwedd a morwedd arbennig Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro gan gynnwys nodweddion unigryw lleol drwy...a) achosi ymyrraeth weledol b) dwysáu defnydd sy'n anghydnaws â'i leoliad... c) beidio â gweddu â neu wella cymeriad tirffurf, tirwedd a morwedd y Parc Cenedlaethol...'***<br><br>**Polisi 29 (Dylunio Cynaliadwy)**<br>***Disgwylir i bob cynnig ar gyfer datblygu ddangos dull integredig o ddylunio ac adeiladu, a bydd gofyn iddynt gael eu cynllunio'n dda o ran: a) Lle a hynodrwydd lleol***<br><br>**Nid yw Polisi 30 (Amwynderau)** ***yn caniatáu datblygiad lle bydd yn cael effaith andwyol annerbyniol ar amwynderau, yn enwedig lle: b) mae'r datblygiad o raddfa sy'n anghydnaws â'i amgylchoedd; a/neu***<br>***d) mae'r datblygiad yn ymwthiol yn weledol.*** |

### *Canllawiau Ymarferol: Maint a Graddfa*

Dylai'r datrysiad dylunio ar gyfer annedd newydd fod wedi'i lywio gan raddfa a maint yr annedd presennol y mae'n cymryd ei le. Mae Polisi 14 (Gwarchod a gwella Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro) y Cynllun Datblygu Lleol yn annog datblygiadau i fod yn gydnaws â chymeriad y dirwedd. Mae cyfnewid anheddau bychain gwledig ag adeiladau sy'n sylweddol fwy yn gallu, mewn rhai amgylchiadau, newid cymeriad y safle ei hun neu'r cyffiniau yn ogystal â lleihau'r cyflenwad o anheddau gwledig llai.

Bydd angen rhoi ystyriaeth briodol i grynswth, dyluniad, uchder ac agoriadau'r datblygiad arfaethedig er mwyn sicrhau nad yw'r cynnig yn ymwthiol yn y dirwedd. Rhaid i'r datblygiad ddiogelu hunaniaeth, cymeriad a hynodrwydd lleol y dirwedd a diogelu Rhinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol. Dylid ystyried arwynebedd llawr gwreiddiol yr uned wrth ystyried a yw graddfa'r datblygiad ag ôl-troed tebyg i'r gwreiddiol.

Lle darperir cyfiawnhad, sy'n dangos bod angen arwynebedd llawr sy'n fwy na'r hyn sydd gan yr adeilad gwreiddiol, ni ddylai'r ychwanegiad hwnnw fel rheol fod yn fwy na 30% o arwynebedd llawr yr uned wreiddiol. Y bwriad yw i'r ffigwr hwnnw fod yn ganllaw yn hytrach na therfyn pendant a bydd pob cynnig yn cael ei asesu ar sail ei rinweddau unigol. Dylid dangos bod unrhyw gynnydd mewn arwynebedd llawr yn hanfodol am resymau swyddogaethol ac ymarferol, ac nad ceisio hynny yn bennaf er mwyn cynyddu cyfanswm maint yr annedd y tu hwnt i'r hyn y mae ei angen yn rhesymol a wneir. Ni ddylid ystyried unrhyw dŷ allan wrth gyfrifo arwynebedd llawr yr uned breswyl.

Byddai angen i annedd newydd wedi'i ddylunio'n dda sydd o raddfa a maint gwahanol ddangos manteision amlwg o ran lleihau'r effaith ar y dirwedd o'i amgylch er mwyn cael cefnogaeth.

**Ateb i C5 yw 'ydy' – ewch ymlaen i Adran B.**

**Ateb i C5 yw 'nac ydy' – mae'n annhebygol y rhoddir caniatâd cynllunio oni bai bod manteision amlwg o ran lleihau'r effaith ar y dirwedd o'i amgylch.**

# Adran B: Ystyriaethau cyffredinol

## Dyluniad

B.1 O fewn yr egwyddorion eang mewn perthynas â graddfa a maint a amlinellwyd uchod, disgwylir i gynigion ar gyfer anheddau newydd yn lle rhai presennol ddangos safonau uchel o ran dylunio. Dylai'r cynigion fod wedi'u llywio gan y dirwedd a'r amgylchedd adeiledig o'u hamgylch, a, lle bo hynny'n berthnasol, gan ffurfiau a deunyddiau traddodiadol, gan ymateb mewn modd priodol i'w lleoliad yn y dirwedd. Nid yw hyn yn golygu na fydd dull dylunio modern yn dderbyniol, ar yr amod bod y cynnig yn ymateb i'w amgylchedd ac nad yw'n arwain at gael nodwedd anghydnaws neu ymwthiol yn y dirwedd.

B.2 Disgwylir y bydd datblygiad preswyl yn lle un presennol yn cynnwys egwyddorion dylunio o ansawdd da – Polisi 29 (Dylunio Cynaliadwy) wedi'u hategu gan Ganllawiau Dylunio Cynaliadwy yr Awdurdod.

B.3 Mae Polisi Cynllunio Cymru hefyd yn pwysleisio y dylai dylunio gael ei arwain gan gyd-destun, ond na ddylai fod yn rhagnodol o ran arddull. Mae paragraff 3.16 yn cydbwyso'r angen am ddylunio o ansawdd uchel, gan ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio barhau'n agored i arloesedd, gan sicrhau na chaiff ymatebion pensaernïol creadigol eu cyfyngu'n ddiangen.

## Cwrtil

B.4 Mae'r gofod o amgylch a rhwng adeiladau yn rhan hanfodol o gymeriad y lleoliad a'r dirwedd yn ehangach. Mae triniaethau terfynau yn chwarae rôl bwysig o safbwynt diogelu nodweddion traddodiadol a phatrwm nodweddiadol gosodiad tir ac adeiladau mewn ardal.

B.5 Y nod fydd osgoi trefoli cwrtil yr eiddo drwy gael cyfran dderbyniol o arwynebedd yr adeilad mewn perthynas ag arwynebedd tir (h.y. y cwrtil preswyl[9]) yn hytrach na waliau a ffensys er mwyn gwella'r cyd-destun gwyrdd lleol.

B.6 Er mwyn ymestyn gerddi i dir a fu'n dir amaeth, mae angen caniatâd cynllunio a dylid osgoi gwneud hynny, yn enwedig pan fydd nodweddion tirwedd naturiol fel

[9]Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 12: 1. Y diffiniad o'r cwrtil ydy'r arwynebedd tir sydd wedi'i gysylltu â'r adeilad. Mae cwrtil y safle yn cael ei ddiffinio fel tir a ddatblygwyd o'r blaen hefyd. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu y dylai holl ardal y cwrtil gael ei hailddatblygu. Er enghraifft, os bydd olion adeilad ond yn cwmpasu cyfran o safle, a bod gweddill y safle'n dir agored (megis ysbyty), fel arfer ni ddylai'r safle i gyd gael ei ddatblygu i ffin y cwrtil. Dylai'r awdurdod cynllunio wneud dyfarniad ynghylch cynllun y safle yn y cyd-destun hwn, gan gofio ystyriaethau cynllunio eraill megis polisïau i warchod mannau agored, caeau chwarae neu ddatblygiad yng nghefn gwlad. Dylent ystyried ffactorau megis sut mae'r safle'n ymwneud â'r byd o'i gwmpas a gofynion ar gyfer mannau agored, lleiniau clustogi ac ardaloedd wedi'u tirlunio.

gwrychoedd, llwyni a choed brodorol yn ffurfio terfyn yr eiddo. Mae ansawdd tir amaethyddol yn ystyriaeth gynllunio berthnasol a chaiff tir o'r graddfeydd ansawdd uchaf ei ddiogelu fel adnodd nad yw'n ddi-ben-draw.[10] Cafwyd gwared â chwrtilau hanesyddol megis buarthau a gerddi yn aml a'u cynnwys mewn caeau/gwelliannau i fuarth fferm gerllaw. Dylai cynnig sy'n adfer cwrtil hanesyddol ddangos ei ddefnydd neu ei olwg hanesyddol ac adferiad unrhyw nodweddion hanesyddol. Lle mae angen creu cwrtil newydd neu ychwanegol ar gyfer annedd sy'n cymryd lle un presennol, rhaid i hyn fod o arwynebedd cyn lleied â phosib.

B.7 Mae triniaethau terfynau yn chwarae rôl bwysig o safbwynt diogelu nodweddion traddodiadol a phatrwm nodweddiadol gosodiad tir ac adeiladau mewn ardal. Dylai ymgeisydd ystyried sut mae triniaethau'r terfynau yn cyfrannu at gymeriad y safle a'r dirwedd ehangach gyda thriniaethau terfynau presennol sy'n ychwanegu at gymeriad yr adeilad a'r lleoliad yn cael eu cadw a'u hymgorffori yn y dyluniad, yn unol â Pholisi 14, maen prawf d. lle dylai triniaethau terfynau megis waliau cerrig a wnaed o ddeunyddiau lleol, ffensys a gatiau pren hollt, gwrychoedd brodorol neu gloddiau Sir Benfro, sydd eisoes yn ffurfio rhan o gymeriad traddodiadol y lleoliad yng nghefn gwlad, gael eu hymgorffori mewn unrhyw gynllun. Rhoddir ffafriaeth i gyfleoedd i drwsio adeileddau ar derfynau lle bo angen yn hytrach na gosod rhai newydd yn eu lle.

B.8 Bydd mynediad a mannau parcio yno eisoes ar y safle ac ychydig o addasu ddylai fod ei angen arnynt. Serch hynny, maen nhw'n elfen anhepgor o ddylunio tirwedd a gall annedd newydd yn lle un presennol ddarparu cyfle i wella draenio dŵr wyneb, cymeriad y lleoliad, a gwella bioamrywiaeth. Dylai'r mannau hyn gael arwyneb o ddeunyddiau athraidd sydd yn briodol o ran eu golwg i'r lleoliad gwledig. Gall plannu o'r newydd ar yr ymylon feddalu cyferbyniad mannau ag arwyneb caled yn y dirwedd. Dylai lleoliad a maint mynedfeydd a mannau parcio osgoi ymwthio i mewn i nodweddion presennol er mwyn lleihau colledion bioamrywiaeth neu gymeriad. Dylid ystyried effaith weledol mynedfa a man parcio mewn modd holistig gyda phresenoldeb disgwyliedig cerbydau hefyd yn ystyriaeth ddylunio.

## Goleuo

B.9 Nodir bod awyr dywyll a llonyddwch ymhlith y rhinweddau arbennig diweddaraf i gael eu cydnabod yng Nghynllun Partneriaeth y Parc Cenedlaethol 2025-2029[11]. Mae Polisi 8 yn mynnu bod y rhinweddau arbennig hyn yn cael eu gwarchod a'u gwella. O ran dyluniad y goleuo, dylid defnyddio ymagwedd ystyriol a chydweddus er mwyn diogelu cymeriad a swyn esthetig yr eiddo. Dylai cynigion gyfeirio at y Canllawiau Arfer Da *Cynllunio ar gyfer Cadwraeth a Gwella Awyr Dywyll yng Nghymru* (CCA APCAP). Dylid cymryd gofal i atal gwastraffu ynni a chyfyngu ar

[10] Dosbarthiad Tir Amaethyddol: Cwestiynau Cyffredin: https://www.llyw.cymru/dosbarthiad-tir-amaethyddol-cwestiynau-cyffredin
[11] Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Cynllun Partneriaeth ar gyfer y Parc Cenedlaethol 2025-2029:https://www.arfordirpenfro.cymru/wp-content/uploads/2025/12/01-Cynllun-Partneriaeth-ir-Parc-Cenedlaethol.pdf

unrhyw effeithiau amgylcheddol negyddol sy'n deillio o gyfraniad yr adeilad at lygredd golau.

B.10 Dylid osgoi defnyddio goleuo allanol ym mhob ardal ac eithrio lle mae ei angen am resymau diogelwch. Dylid rheoli goleuo mewn modd priodol er mwyn sicrhau na chaiff goleuadau eu cynnau pan nad oes eu hangen, e.e. drwy ddefnyddio synwyryddion symudiad ac amseryddion awtomatig.

B.11 Er mwyn cyfyngu ar gyfraniad system oleuo at lygredd golau, dylai golau gael ei gyfeirio tuag i lawr bob amser a chael ei gysgodi mewn modd addas er mwyn sicrhau nad oes unrhyw olau'n llewyrchu uwchben y llinell lorweddol. Dylai goleuadau allanol ddefnyddio synwyryddion diffodd, pylu neu PIR. Dylai graddfa goleuedd y goleuadau fod yn briodol, heb fod yn fwy pwerus na'r hyn sydd ei angen i oleuo'r man dan sylw a heb ollwng golau i'r amgylchedd cyfagos. Dylai'r golau fod o liw 'Gwyn Cynnes' gyda thymheredd golau heb fod yn fwy na 2700 Kelvin.

B.12 Er mwyn cyfyngu ar oleuo'r tu allan gyda'r goleuadau mewnol, dylid osgoi ffenestri gormodol. Anogir bleinds, llenni, caeadau allanol a/neu ddefnyddio gwydr ag arlliw neu wydr electrocromig.

## Atal hawliau datblygu a ganiateir

B.13 Mae 'Hawliau Datblygu a Ganiateir' yn caniatáu i fathau penodol o ddatblygiadau fynd rhagddynt heb fod angen derbyn caniatâd cynllunio ar gyfer y gwaith hwnnw. Gan fod y cynigion hyn wedi'u lleoli yng nghefn gwlad, pan roddir caniatâd cynllunio ar gyfer cael annedd newydd yn lle un presennol, gallai amod cynllunio fod yn briodol er mwyn atal yr hawliau datblygu a ganiateir sydd yn gysylltiedig ag addasiadau, estyniadau ac unrhyw ddatblygiadau cysylltiedig eraill perthnasol er mwyn galluogi Awdurdod y Parc Cenedlaethol i gael rheolaeth dros unrhyw ddatblygiadau a allai ddigwydd ar y safle yn y dyfodol. Golyga hynny y bydd unrhyw ddatblygiad arfaethedig ar y safle ar gyfer estyniadau ac addasiadau yn amodol ar gais cynllunio.

# Adran C Gwybodaeth bellach a chysylltiadau


**Y Tîm Rheoli Datblygu**
DC@Pembrokeshirecoast.org.uk
01646 624800
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol
Parc Llanion
Doc Penfro
Sir Benfro
SA72 6DY

**Heneb**
planning@heneb.org.uk
01248 366975
Heneb: Ymddiriedolaeth Archaeolegol Cymru | Archaeoleg Dyfed
(Prif Swyddfa) Tŷ Cornel,
6 Stryd Caerfyrddin,
Llandeilo
SA19 6AE

**Comisiwn Dylunio Cymru**
connect@dcfw.org
+44 (0)29 2045 1964
Comisiwn Dylunio Cymru
4ydd Llawr, Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL


Mae Comisiwn Dylunio Cymru yn cynnig cyngor dylunio annibynnol a gwasanaeth Adolygu Dyluniadau cenedlaethol er mwyn cefnogi datblygiadau o ansawdd uchel sydd yn ymatebol i gyd-destun. Anogir ymgysylltu cynnar, yn enwedig ar gyfer cynigion addasu cymhleth neu sensitif.

Mae canllawiau pellach ar gael drwy eu *Canllawiau Dadansoddi Safleoedd a'u Cyd-destun* a'u *Canllawiau ar Ddatganiadau Dylunio a Mynediad.*